Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Cyflwyniad

galluogi cyflenwi gwasanaethau

Mae PSBA (Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus) yn cyflenwi ystod o wasanaethau band eang, llais, fideo a data i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae PSBA yn cefnogi cyflenwi gwasanaethau mewn modd cydweithredol ac ar y cyd, fel bod dinasyddion Cymru yn cael budd o wasanaethau cyhoeddus gwell.

Mae ein rhwydwaith maint mawr ledled y wlad yn cyflenwi rhwydweithiau preifat a diogel i Iechyd, Addysg Uwch a Phellach, Awdurdodau Unedol a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Cafodd PSBA ei lunio a'i gynllunio yng Nghymru, ac mae'n bodloni anghenion cyfathrebu unigol sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan sicrhau bod Cymru yn arwain y ffordd wrth ddefnyddio TGCh i wella'r modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflenwi.

Trosolwg

Caiff gwasanaethau PSBA eu cyflenwi dros rwydwaith PSBA. Mae'r rhwydwaith hwn yn Rhwydwaith y Genhedlaeth Nesaf (NGN) sy'n darparu un llwyfan cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r modd y mae wedi'i gynllunio a'i weithredu yn cydgasglu'r galw cynyddol am gysylltedd cyflym ac amlbwrpas ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus.

Mae cyfuno gofynion a chydweithio yn cael gwared ar rwydweithiau dyblyg ac yn cyflenwi gwasanaeth o lefel uwch i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth. Mae cydweithio ar draws gwahanol sectorau, er enghraifft Addysg ac Iechyd, yn yr un ardal neu gymdogaeth, yn sicrhau y gall pawb gael gwerth gwell am arian.

Mae PSBA yn darparu ystod o wasanaethau cysylltedd a chyfathrebu i ddefnyddwyr:

- rhwydwaith cyfathrebu mewnol diogel, gwydn a chyflym
- cefnogaeth ar gyfer cymwysiadau fel teleffoni a fideo-gynadledda
- ystod band graddedig ac ymraniadau rhesymegol
- amgylchedd cydweithio sicr sy'n galluogi sefydliadau i gydweithio â'i gilydd yn fwy effeithiol
- arbed costau trwy ddarbodion maint ac osgoi dyblygu
- safonau cyffredin sy'n sicrhau gallu gwell i ryngweithredu
- cyrhaeddiad estynedig ledled Cymru
- catalydd ar gyfer newid ar draws prosesau presennol a sefydliadau

Mae PSBA yn cyffwrdd â phob cornel o wasanaethau cyhoeddus, o lywodraeth leol i iechyd; o addysg i wasanaethau brys; gan gefnogi pob sefydliad ar draws y gymuned sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

10409

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government